**C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG**
**AR ADDYSG GREFYDDOL**
**14.10.09**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Pat Larsen, (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Huw Edwards, (Is-gadeirydd)

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr: Aeron Jones,

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mrs. Ruth Davies, (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Gwyn Hefin Jones, (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Mr Wyn Myles Meredith, (Eglwys Fethodistaidd), Y Parch. Robert Townsend (Yr Eglwys Yng Nghymru Esgobaeth Bangor), Mrs Eirian Bradley-Roberts (Yr Eglwys Gatholig)

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC), Miss Miriam Williams (NAS/UWT)

**Aelod cyfetholedig:** Mr Rheinallt Thomas,

**Swyddogion:** Mr Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Miss Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau), Mrs Glynda O'Brien, (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Selwyn Griffiths, Guto Rhys Thomas, Mr Paul Mathews-Jones (SHA).

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Mr Rheinallt Thomas.

2. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganodd Mr Rheinallt Thomas fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 10 – Gohebiaeth sef Adroddiad Blynyddol Mudiad Addysg Grefyddol Cymru gan ei fod yn Drysorydd i'r Mudiad.

'Roedd o'r farn nad oedd y buddiant yn rhagfarnu ac ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu aelodau newydd i'r cyfarfod sef Miss Miriam Williams, cynrychiolydd NAS/UWT a Pharchedig Robert Townsend, cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru.
(b) Cyfeiriodd at brofedigaeth a ddaeth i ran y Cynghorydd Stephen Churchman drwy golli ei fam yn ddiweddar. Gofynnwyd i Glerc CYSAG anfon llythyr o gydymdeimlad, ar ran aelodau CYSAG, ag ef a'u deulu yn eu colled drist.

**Penderfynwyd: Gofyn i Glerc CYSAG anfon gair o gydymdeimlad, ar ran aelodau CYSAG, i'r Cynghorydd Churchman.**

**4. COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar y 17 Mehefin 2009.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

**5.** **<u>MATERION YN CODI O'R COFNODION</u>**

(a) Cyfeiriwyd at Eitem 5 - Mater Brys ynglŷn â darpariaeth lefel A mewn Addysg Grefyddol yng Ngholeg Meirion-Dwyfor.

Adroddodd Clerc CYSAG ei fod wedi gohebu â Choleg Meirion-Dwyfor yn unol â chais CYSAG i ganfod gwybodaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth a gynigir gan y Coleg i ddisgyblion sydd yn dymuno parhau a'u hastudiaethau mewn Addysg Grefyddol hyd at lefel A.

Derbyniwyd ymateb gan Bennaeth Coleg Meirion Dwyfor ac fe ddarllenodd y Clerc y rhannau perthnasol o'r llythyr:

"Mae'r Coleg yn adolygu'r cynnig cwricwlaidd bob tair blynedd er mwyn sicrhau ein bod yn darparu arlwy sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer y camau nesaf yn eu gyrfa addysgol neu ar gyfer gwaith. Rydym yn gwneud hyn drwy ymchwilio i anghenion yr economi leol (ar gyfer cyrsiau galwedigaethol) ac ymchwil a thrafodaethau ynglyn ag anghenion Addysg Uwch (ar gyfer cyrsiau AS ac A2). Rydym hefyd yn edrych ar y niferoedd sy'n astudio pynciau gwahanol yn yr ysgolion sy'n ein bwydo er mwyn adnabod tueddiadau. Pwrpas yr holl ystyriaethau yma yw gallu cynnig cwricwlwm sy'n caniatáu dilyniant priodol i'n dysgwyr, ac nid ydym am "gau unrhyw ddrysau" i'n dysgwyr.

Penderfyniad y Gorfforaeth ychydig yn ôl oedd parhau i gynnig cwrs AS mewn Addysg Grefyddol ond i beidio cynnig Cwrs A2. Cloriannwyd y sefyllfa gan ddefnyddio'r meini prawf uchod. O safbwynt tueddiadau, bach iawn yw'r niferoedd sy'n dymuno parhau i astudio Addysg Grefyddol ar ôl TGAU a llai fyth sy'n dewis parhau i A2 ar ôl iddynt gwblhau cwrs AS yn y pwnc. Ffaith bwysig arall yw nad oes angen cymhwyster Lefel A mewn Addysg Grefyddol i ddilyn cwrs yn y pwnc ar lefel Addysg Uwch.

Mae'r penderfyniad, felly, yn caniatau i fyfyrwyr astudio cwrs a chael cymhwyster yn Addysg Grefyddol (AS). Nid yw yn unrhyw rwystr i ddysgwr sy'n dymuno astudio Addysg Grefyddol ar lefel Addysg Uwch".

Tynnwyd sylw y byddai Pennaeth Coleg Meirion-Dwyfor yn barod i ymuno mewn unrhyw drafodaeth resymol a chadarnhaol ar sut y gellid datblygu'r cynnig cwricwlaidd sydd ar gael yn yr ardal.

Atgoffwyd yr aelodau gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau nad oedd gan CYSAG reolaeth dros sefydliadau addysg bellach ac nid oedd tystiolaeth ysgrifenedig i law ar yr union niferoedd o ddisgyblion a oedd yn dymuno astudio Addysg Grefyddol i lefel A2. Fe fyddai'n fuddiol petai athrawon yn gallu casglu data ym Mlwyddyn 9 ar faint o ddisgyblion sydd yn awyddus i astudio Addysg Grefyddol fel cwrs TGAU yn ogystal â faint fyddai'n dymuno parhau â'r pwnc i Lefel A.

Ategwyd y pryder unwaith yn rhagor gan sawl aelod nad oedd cynnig ar gael i ddisgyblion astudio Addysg Grefyddol i lefel A. Awgrymwyd, tra'n derbyn nad oedd gan CYSAG reolaeth dros gyrsiau mewn sefydliadau addysg bellach, y dylid ysgrifennu at Lywodraethwyr Coleg Meirion-Dwyfor yn mynegi pryder CYSAG Gwynedd ynglyn â sgil effeithiau ar ddewisiadau disgyblion yn ysgolion Gwynedd oeddynt yn gyfrifol drostynt yn arbennig y disgyblion hynny sy'n awyddus i barhau i astudio Addysg Grefyddol i lefel A2.

Gwnaed cais gan aelodau sy'n cynrychioli'r gwahanol enwadau i dderbyn copi o ymateb Pennaeth Coleg Meirion-Dwyfor gan Glerc CYSAG fel bo iddynt rannu'r wybodaeth gyda chynrychiolwyr yr enwadau hynny.

**Penderfynwyd: (a) Gofyn i Glerc CYSAG:**

**(i) ddiolch a chydnabod derbyn llythyr Pennaeth Coleg Meirion-Dwyfor gan nodi y trafodwyd cynnwys ei ymateb gan aelodau CYSAG**
**(ii) ysgrifennu llythyr at Lywodraethwyr Coleg Meirion-Dwyfor yn mynegi pryder ynglyn â'u penderfyniad i beidio parhau i gynnig cwrs lefel A2 mewn Addysg Grefyddol**
**(iii) anfon copi o lythyr Pennaeth Coleg Meirion-Dwyfor i'r aelodau hynny sy'n cynrychioli'r enwadau ar CYSAG Gwynedd er mwyn iddynt rannu'r wybodaeth hefo'u cyd-aelodau**

(b) Cyfeiriwyd at Eitem 9 – Cymdeithas CYSAGau Cymru pryd yr awgrymwyd y byddai'n syniad i wahodd Cymdeithas CYSAGau Cymru i Wynedd rhyw dro yn y dyfodol. Adroddodd Mr Rheinallt Thomas bod rota wedi ei ddarparu gan y Gymdeithas i fynd o amgylch Siroedd yn eu tro ac mai yn Haf 2013 fyddai'r Gymdeithas yn ymweld â Gwynedd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Gwynedd am y flwyddyn academaidd 2008-09 er cymeradwyaeth yr aelodau cyn cyhoeddi copi terfynol.

Esboniwyd mai pwrpas yr adroddiad ydoedd cyflwyno crynodeb o drafodaethau CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn flaenorol h.y. Medi 2008 i Awst 2009. Tywysodd yr aelodau drwy'r adroddiad gan gyfeirio at y dulliau a ddefnyddir i roi sylw cyson i safonau Addysg Grefyddol drwy fonitro canlyniadau arholiadau, adolygu adroddiadau arolygiadau ysgol ynghyd â derbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion. Gwerthfawrogir parodrwydd ysgolion i gyflwyno eu hunan arfarniadau ynghyd â chefnogaeth staff gweinyddol y swyddfa addysg mewn casglu'r wybodaeth ar gyfer CYSAG Gwynedd. Yn ogystal, derbynnir cyflwyniadau gan ysgolion sydd wedi derbyn Gradd 1 yn eu harolwg fel bo modd rhannu profiadau dysgu'r disgyblion gydag aelodau CYSAG.

Cyfeiriwyd at secondiad Mrs Carol Llewelyn Jones fel Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol ond bu i'w gwaith gael ei lesteirio gan waeledd tymor hir. Cydnabuwyd a gwerthfawrogwyd ei chefnogaeth i'r gwaith a dymunwyd yn dda iddi am adferiad i lawn iechyd. Penodwyd Mrs Leusa Jones, Pennaeth Adran yn Ysgol Dyffryn Nantlle, fel olynydd a hyderir y gellir hi fynychu ambell gyfarfod o CYSAG Gwynedd yn ddibynnol ar ddyddiadau cyfleus iddi.

Cyfeiriwyd at y cyrsiau a gynigwyd o dan raglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon yr awdurdod. Noda'r adroddiad gysylltiad gyda APADGOS a hefyd cyfeirir at swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd.

Cynigwyd mân gywiriadau gan aelodau unigol ar gynnwys yr adroddiad megis diddymu'r geiriau (Hydref Edern) ar dudalen 6, cyfeirio mai'r Cadeirydd ydoedd y Cynghorydd Pat Larsen ar dudalen 17, ychwanegu enw'r Cynghorydd Aeron Jones i'r rhestr o rai sy'n mynychu Cymdeithas CYSAGau Cymru ar dudalen 19, diddymu'r gair "independent" gyferbyn ag enw'r Cyng. Huw Edwards ar dudalen 18 o'r fersiwn Saesneg.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gyda'r mân gywiriadau fel y nodwyd gan yr aelodau a diolch i'r swyddogion fu'n ymwneud â'r gwaith o'i chynhyrchu.**

## 7. CANLYNIADAU ADDYSG GREFYDDOL 2009

Cyflwynwyd adroddiad yr Ymgynghorydd Dyniaethau ar ganlyniadau Addysg Grefyddol 2009. O safbwynt CA3, nodwyd bod CYNNAL ers 1998 wedi bod yn casglu data yn unol â chyflawniad disgyblion 14 mlwydd oed ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion. Yn y gorffennol 'roedd disgyblion Gwynedd wedi bod yn dilyn lefelau'r Maes Llafur Cytûn. Erbyn hyn mae Adrannau wedi bod yn dilyn lefelau'r Maes Llafur Cytûn newydd ond nid oedd y rhain yn berthnasol i ddisgyblion Blwyddyn 9 eleni. Nodwyd nad oes gan y Cynulliad hawl statudol i gasglu data Addysg Grefyddol CA3 oherwydd nad yw'r pwnc yn bwnc cwricwlwm cenedlaethol ond yn hytrach yn bwnc sy'n cael ei reoli'n lleol. O ganlyniad mae CYNNAL yn ddibynnol ar ewyllys da Penaethiaid Adrannau CA3 i gyflwyno'r wybodaeth iddynt er ei fod yn golygu llawer o waith ychwanegol. Nodwyd bod dwy ysgol wedi cael eu gwahodd i fod yn rhan o gynllun peilot (APADGOS) i greu portffolios eleni ar gyfer achrediad allanol.

Cyfeiriwyd at ganlyniadau da yng Nghyfnod Allweddol 4 ac fe nodwyd bod CYNNAL yn awyddus i gynnig cefnogaeth i adrannau sy'n awyddus i ddenu mwy o ymgeiswyr i sefyll TGAU Astudiaethau Crefyddol ynghyd a chefnogi adrannau sy'n bwriadu cyflwyno portffolios Addysg Grefyddol i safonwyr allanol eleni.

Tynnwyd sylw bod niferoedd y disgyblion sy'n dilyn y cwrs byr wedi cynyddu ac yn ennill canlyniadau da.

Cyfeiriwyd at ganlyniadau Uwch Gyfrannol Astudiaethau Crefyddol ar gyfer 2009 gan nodi bod ysgolion uwchradd bellach yn cydweithio er mwyn rhannu'r cyfrifoldeb o gyflwyno cyrsiau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol ac felly nid yw pob ysgol uwchradd yn Arfon yn cynnig yr arlwy o gyrsiau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol.

Ymddengys bod niferoedd a chanrannau Ysgol Eifionydd yn anghywir yn y tablau o fewn yr adroddiad ac fe addawodd Miss Miriam Williams anfon y wybodaeth gywir i'r Ymgynghorydd Dyniaethau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 8. AROLYGIADAU YSGOLION

Cyflwynwyd:

**(a)** Gwybodaeth ar gynnwys adroddiadau arolygiadau ysgolion dan Adran 28 Deddf Addysg 2005 mewn perthynas ag Addysg Grefyddol a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion.

**(b)** Crynodeb o hunan arfarniad yr ysgolion canlynol:

- **Ysgol Dyffryn Nantlle**
- **Ysgol Glan y Môr**

**Adroddwyd:** (a) Gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod chwech o ysgolion Gwynedd wedi eu harolygu ers y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn. Dim ond un o'r rhain, sef Ysgol Traeth, Abermaw, oedd wedi derbyn arolygiad mewn Addysg Grefyddol fel pwnc penodol gyda'r ysgol yn derbyn Gradd 2 yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2 heb unrhyw ddiffygion pwysig yn cael eu nodi. Gyda'r gweddill o'r ysgolion (Ysgol Bron y Foel,

Ysgol y Traeth, Ysgol Nefyn, Ysgol Hirael,Ysgol Dolgellau), rhoddwyd sylw i Gwestiwn Allweddol 3 sy'n cyfeirio at: 'Pa mor dda mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? Yng nghyswllt Ysgol Gynradd Dolgellau fel Ysgol Eglwysig, tynnwyd sylw y derbyniwyd adroddiad llawn gan Esgobaeth Bangor ar safonau Ysgol Gynradd Dolgellau. Ymfalchïwyd yn y graddau a ddyfarnwyd i'r holl ysgolion uchod a llongyfarchwyd hwy ar eu llwyddiant.

(b) Cyfeiriwyd at gynnwys yr Hunan Arfarniadau'r ddwy ysgol uwchradd a nodir yn (i) a (ii) uchod. Nodwyd bod y ddwy ysgol yn dyfarnu Gradd 2 iddynt eu hunain o ran safonau. Cyfeiriwyd at yr agweddau a fyddai'n cael sylw yn ystod yr arolygiadau yn ystod y flwyddyn nesaf, er nad yw Addysg Grefyddol yn cael ei arolygu fel pwnc yn y ddwy ysgol fe fyddir yn derbyn adroddiad yn gysylltiedig â chwestiwn allweddol 3. Nodwyd bod Ysgol Dyffryn Nantlle wedi cyflwyno gwybodaeth yn unol â'r hen drefn o arolygu sef 7 cwestiwn allweddol gan roi sylw i 6 pwnc, tra roedd Ysgol Glan y Môr yn treialu'r dull newydd i'r drefn lle rhoddir pwyslais ar 3 cwestiwn i'r fframwaith. Fe fyddai'r adroddiad terfynol yn gryno, fwy o bwyslais ar sgiliau a llai o sylw penodol i'r pynciau.

Ymhelaethodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau ar y trefniadau newydd a ddaw i rym ar ôl 2010 o gyflwyno arolygiadau i CYSAG oherwydd na fydd arolygiadau yn rhoi sylw penodol i'r pwnc. O ganlyniad felly, ni fydd CYSAG yn derbyn tudalennau sy'n cyfeirio at Addysg Grefyddol yn benodol fel rhan o'i rhaglen. Fodd bynnag, fe fyddir yn parhau gyda'r trefniant o gyflwyno hunan arfarniadau. Esboniodd y byddai ESTYN yn gofyn i Arolygydd Ei Mawrhydi i ysgrifennu adroddiad pynciol yn seiliedig ar ymweliadau ysgolion gan gyflwyno sampl o ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd trwy Gymru gyfan. Aeth ymlaen i egluro'r rhesymau am y newid, sef bod y drefn arolygu bresennol yn un llafurus, bod anghysondebau yn codi yn y drefn arolygu, ysgolion yn derbyn gormod o rybudd ac efallai y treulir gormod o amser hefo ysgolion gyda safonau da a diffyg cefnogaeth i ysgolion gyda gwendidau.

Mewn ymateb i bryder aelodau ynglyn a sut y bydd CYSAG yn monitro safonau Addysg Grefyddol, eglurwyd y rhoddir pwyslais ar yr hunan arfarniadau ac 'roedd athrawon yn deall y byddir yn disgwyl i'r hunan arfarniadau fod yn effeithiol a chywir. Gellid cymharu'r radd a ddyfarnir ysgol yn yr hunan arfarniad gyda'r adroddiad terfynol Arolygydd Ei Mawrhydi a gweld os oes unrhyw wendidau.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, i'r Swyddog Addysg anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn eu llongyfarch am eu llwyddiant a nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

## 9. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2009 yn Llangollen.

**Adroddwyd:** Gan y Cynghorydd Aeron Jones sy'n mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru eu bod yn fuddiol dros ben ac yn symbylu syniadau newydd. Cyfeiriwyd at gyflwyniad diddorol gan Vicky Barlow ynglyn â disgyblion mwy galluog a thalentog ac fe ychwanegwyd bod CYNNAL wedi darparu gwaith ar y maes hwn

Yn deillio o gofnodion y cyfarfod blynyddol tynnwyd sylw at argymhelliad y dylai CYSAGau dalu tanysgrifiad o £383 am 2009/10.

**PENDERFYNWYD: (a) Derbyn a nodi cynnwys y cofnodion.**

**(b) Cymeradwyo i ail-ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru drwy dalu tanysgrifiad o £383 am y flwyddyn 2009/10.**

**10. GOHEBIAETH**

Cyfeiriodd Clerc CYSAG at yr ohebiaeth isod a dderbyniwyd::

(a) Adroddiad Blynyddol 2008/09 Mudiad Addysg Grefyddol Cymru a oedd yn cynnwys teyrnged i'r diweddar Hywel Iorwerth Evans, Llywydd Anrhydeddus y Mudiad. Tynnwyd sylw hefyd at gyfraniad Miss Bethan James ar ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon. Nodwyd a diolchwyd am gyfraniad ariannol gan y Mudiad tuag at waith yr Athrawes Ymgynghorol.

(b) Rhifyn Haf o Newyddion Addysg Grefyddol a chyfeiriwyd at erthygl ddiddorol ar Thema - Teithio gan Mrs Heulwen Hydref Jones, Pennaeth Ysgol Bro Hedd Wyn, Trawsfynydd. Bu i Heulwen dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar ac fe fydd i ffwrdd o'i gwaith am gyfnod a dymunwyd adferiad llwyr a buan iddi.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2 pm a daeth i ben am 3:25 pm

**CADEIRYDD**